Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

## Practis Deintyddol Cyffordd Llandudno

Dyddiad yr Arolygiad: 31 Hydref 2016

Dyddiad Cyhoeddi: 1 Chwefror 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:** 0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.hiw.org.uk


ISBN Digidol 978-1-4734-8417-7
© Hawlfraint y Goron 2017

## Cynnwys

1. Cyflwyniad ... 2

2. Cyd-destun ... 3

3. Crynodeb ... 4

4. Canfyddiadau ... 5

Ansawdd Profiad y Claf ... 5

Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol ... 7

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ... 10

5. Y Camau Nesaf ... 11

6. Methodoleg ... 12

Atodiad A ... 14

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cynhaliodd AGIC arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffordd Llandudno yn 154 Conwy Road, Cyffordd Llandudno, Conwy LL31 9DU ar 31 Hydref 2016.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd Practis Deintyddol Cyffordd Llandudno yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011, a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Cynhelir arolygiadau deintyddol ar ôl rhoi rhybudd, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd profiad y claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu.
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol – Rydym yn asesu i ba raddau mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r diwylliant yn ffafrio darparu gofal diogel ac effeithiol.  Rydym hefyd yn ystyried sut y mae byrddau iechyd yn adolygu a monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn safonau a chanllawiau perthnasol.

Mae rhagor o fanylion am ein methodoleg ar gael yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

## 2. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol Cyffordd Llandudno yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat yn unig, ac mae wedi'i leoli yng Nghyffordd Llandudno.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys dau ddeintydd, pum nyrs ddeintyddol, dau hylenydd ac un derbynnydd.  Bydd therapydd/hylenydd arall yn dechrau gweithio yn y practis ym mis Ionawr 2017.

Darperir amrediad o wasanaethau deintyddol preifat.

## 3. Crynodeb

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth a oedd yn dangos bod Practis Deintyddol Cyffordd Llandudno yn darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwelsom y dull cynnes, cyfeillgar a phroffesiynol a ddangosai staff deintyddol a staff y dderbynfa tuag at gleifion. Dywedodd y cleifion a oedd wedi cwblhau holiaduron AGIC wrthym eu bod yn fodlon iawn ar y gofal a'r driniaeth maent yn eu derbyn ym Mhractis Deintyddol Cyffordd Llandudno.

Gwelsom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y cleifion y gwnaethom ni siarad â nhw’n hapus gyda’r gwasanaeth a ddarperir
- Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw’n hapus yn eu swyddi ac yn deall eu cyfrifoldebau
- Roedd digon o gyfarpar yn y cyfleusterau clinigol ac roeddent i'w gweld yn lân ac yn daclus
- Roedd offerynnau deintyddol yn cael eu glanhau a'u sterileiddio yn y modd priodol
- Roedd safon cofnodion cleifion yn uchel

Rydym yn argymell y gallai'r practis wella’r canlynol:

- Ystyried defnyddio mopiau untro neu osod rac wal/bracedi ar gyfer y mopiau ac iddynt god lliw

## 4. Canfyddiadau

### *Ansawdd Profiad y Claf*

**Gwelsom dystiolaeth bod y practis hwn yn ymroddedig i roi profiad cadarnhaol i'w cleifion. Cyfeiriodd y sylwadau yn holiaduron cleifion AGIC a ddychwelwyd at agweddau cyfeillgar, gofalgar a phroffesiynol holl staff y practis. Rhoddwyd gofal mewn modd amserol ac urddasol.**

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael sylwadau ar y gwasanaethau deintyddol sy'n cael eu darparu. Cwblhawyd a dychwelwyd 20 ohonynt. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys:

> *"Dw i'n cael yr holl staff yn y ddeintyddfa'n broffesiynol ac yn gyfeillgar, sy'n gwneud imi a'm plant ymlacio. Byddwn i'n argymell Deintyddfa Cyffordd Llandudno yn gryf iawn i unrhyw un sydd angen triniaeth a gwiriadau deintyddol yn rheolaidd. Mae'r derbynyddion hefyd yr un mor broffesiynol a chyfeillgar â'r deintydd yn ogystal â'r nyrsys deintyddol"*
>
> *"Mae tîm y practis yn groesawgar bob amser. Mae'r deintydd yn ymwybodol o ba mor nerfus ydw i pan fyddaf yn dod i'w weld, ac mae wedi ei gwneud fel fy mod yn gallu bod yn gadarnhaol pan fydd apwyntiad gennyf"*
>
> *"Gwasanaeth rhagorol. Mae'r deintydd yn gwneud imi deimlo mor ymlaciedig ag y bo modd. Mae'n esbonio'r hyn mae'n ei wneud a pham, ac yn rhoi cyngor imi hefyd"*
>
> *"Dw i wedi derbyn gwasanaeth o'r radd flaenaf gan y practis ar gyfer fy holl deulu, a dyma pam mae ein teulu wedi aros gyda'r practis ers deng mlynedd"*

<u>Gofal gydag urddas</u>

Nododd pob un o'r cleifion eu bod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth roeddent wedi eu derbyn yn y practis, a'u bod yn cael croeso gan y staff. Gwelsom hefyd y dull cynnes, cyfeillgar a phroffesiynol roedd y staff yn ei ddefnyddio tuag at gleifion.

<u>Gofal amserol</u>

Mae'r practis yn ceisio sicrhau bod gofal deintyddol yn cael ei ddarparu mewn modd amserol. O'r 20 holiadur a gwblhawyd, dim ond chwe chlaf a oedd wedi profi rhai oediadau byr cyn cael eu gweld gan y deintydd ar ddiwrnod yr

apwyntiad; fodd bynnag, eglurodd y cleifion fod yr oediadau hyn yn rhai bach iawn.

O'r 20 holiadur, dywedodd saith claf wrthym nad oeddent yn gwybod sut i gael mynediad at wasanaethau y tu allan i oriau. Dywedodd y practis wrthym fod eu rhif ffôn y tu allan i oriau wedi'i arddangos yn y ffenest a bod deintyddion hefyd yn hysbysu'r cleifion am y rhif ar ôl triniaeth. Gwnaethom argymell bod y practis yn ystyried ffyrdd eraill o sicrhau bod yr holl gleifion yn ymwybodol o fanylion cyswllt y gwasanaeth y tu allan i oriau rhag ofn bod argyfwng.

Cadw'n iach

O'r 20 holiadur a gwblhawyd, dywedodd 16 claf wrthym fod eu hanghenion ieithyddol yn cael eu diwallu. Roedd digon o daflenni hybu iechyd deintyddol a dalenni data ar gael yn ddwyieithog yn y dderbynfa a'r ystafell aros, a oedd yn golygu bod gan gleifion fynediad at wybodaeth ynglŷn â sut i ofalu am eu hylendid ceg eu hunain.  Roedd rhestrau prisiau hefyd yn cael eu harddangos yn glir yn y man aros.

Gofal unigol

Roedd ymatebion o holiaduron cleifion yn dangos bod yr holl gleifion yn teimlo eu bod yn derbyn digon o gyngor am eu triniaeth unigol, a'u bod yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth roeddent yn ei dderbyn. Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn cael croeso cynnes bob amser.  Roedd yr holiaduron yn ei gwneud yn amlwg bod staff yn cymryd amser i wrando ar gleifion bob amser, ac yn rhoi cyngor iddynt ynglŷn ag unrhyw bryderon neu gwestiynau sydd ganddynt.

Gwelsom fod gan y practis weithdrefn gwyno ar waith ar oedd wedi'i harddangos yn glir yn y dderbynfa ac yn yr ystafell aros ar y llawr cyntaf. Roedd y weithdrefn ar gyfer gwneud cwyn hefyd wedi'i hamlinellu yn nhaflen wybodaeth y practis.  Fodd bynnag, er y mesurau hyn, gwnaethom nodi o'r holiaduron nad oedd dros hanner y cleifion yn gwybod sut i wneud cwyn. Gwnaethom argymell bod y practis yn ystyried ffyrdd eraill o wneud yn siŵr bod pob claf yn gwybod sut i wneud cwyn.

## *Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol*

**Canfuom fod cleifion yn derbyn gofal deintyddol diogel ac effeithiol. Roedd yr ystafell driniaeth yn cynnwys yr holl offer perthnasol, ac roedd wedi'i chynllunio a'i threfnu i gynorthwyo'r tîm i weithio'n effeithlon. Roedd i'w weld yn lân iawn ac mewn cyflwr da. Roedd safon cofnodion cleifion yn uchel.**

Gofal diogel

Canfuom fod y practis yn cael ei reoli gyda'r bwriad o fodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Diwygio) 2011, a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill, er mwyn sicrhau iechyd, diogelwch a lles cleifion a staff. Roedd y practis yn darparu amgylchedd glân ac roedd yr ystafelloedd triniaeth yn olau ac yn awyrog.

Gwnaethom edrych ar y cyfleusterau clinigol yn yr ystafelloedd triniaeth a chanfod eu bod yn cynnwys yr offer perthnasol ar gyfer diogelwch cleifion a'r tîm deintyddol. Gwelsom fod yr ystafelloedd triniaeth i'w gweld yn lân iawn ac mewn cyflwr da. Roeddent hefyd wedi'u cynllunio a'i threfnu i gynorthwyo'r tîm i weithio'n effeithlon. Wrth archwilio'r ystafelloedd triniaeth nodwyd bod rhai eitemau wedi'u gadael yn rhydd yn nroriau'r ystafell driniaeth, megis cwpanau proffi[1] a dodwyr, a gwnaethom argymell rhoi'r eitemau hyn mewn mewnosodiadau drôr.

Mae'r practis yn defnyddio mopiau ac iddynt god lliw yn rhan o'i drefn lanhau; fodd bynnag, pan fydd y mopiau'n cael eu storio mae eu pennau'n cyffwrdd a'i gilydd, sy'n cynyddu'r risg o groes-halogi. Er mwyn lleihau croes-halogi, dylai'r practis ystyried defnyddio mopiau untro, neu osod rac wal/bracedi ar gyfer storio mopiau, a'u pennau wedi'u cadw ar wahân i'w gilydd.

***Yr hyn y mae angen ei wella:***

***Ystyried defnyddio mopiau untro neu osod rac wal/bracedi ar gyfer y mopiau ac iddynt god lliw***

[1] Cwpan rwber y gellir ei anffurfio pan roddir ar ddant sy'n cael eu sgleinio

Roedd yr holl gyfarpar radiolegol yn cael ei gynnal ac yn gweithio'n dda. Gwnaeth y trefniadau a welsom gadarnhau ei fod yn cael ei weithredu'n ddiogel ac yn cael ei wasanaethu'n rheolaidd.

Gwnaethom nodi bod profion dyfeisiau cludadwy wedi'u cwblhau ar yr holl offer trydanol bob dwy flynedd, gan sicrhau bod dyfeisiau bach yn ddiogel i'w defnyddio. Roedd diffoddwyr tân wedi'u gosod drwy'r adeilad a gwelsom dystiolaeth o gontract cynnal a chadw cyfarpar tân cyfredol. Roedd arwyddion ar gyfer yr allanfeydd brys wedi'u harddangos yn glir, ac roedd poster iechyd a diogelwch wedi'i arddangos yn glir. Canfuom fod yr holl gemegau yn cael eu cadw'n ddiogel ac nid oedd yr un ohonynt wedi eu gadael mewn mannau cyhoeddus.

Roedd gweithdrefnau ar waith yn y practis a oedd yn dangos sut i ymateb i argyfyngau meddygol cleifion. Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod y tîm wedi cael yr holl hyfforddiant perthnasol. Roedd y cyffuriau brys yn cael eu cadw'n ddiogel, ac roeddent ar gael ar unwaith pe bai argyfwng meddygol (claf yn llewygu/cwympo) yn y practis. Gwelsom dystiolaeth bod system effeithiol ar waith i wirio'r cyfarpar a'r cyffuriau brys i sicrhau bod eu dyddiadau dod i ben yn gyfredol a'u bod yn barod i'w defnyddio. Wrth archwilio'r systemau hyn, nodwyd bod un eitem o'r cyffuriau brys wedi'i cholli gan y practis, a chafodd hon ei harchebu ar unwaith ar ddiwrnod ein hymweliad, i gael ei hanfon y diwrnod wedyn.

Roedd gan y practis gyfleusterau neilltuedig ar gyfer glanhau a sterileiddio (dadhalogi) offer deintyddol, fel yr argymhellir gan Femorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (WHTM), a gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod y practis yn cynnal archwiliadau rheoli heintiau bob chwe mis.

Roeddem yn gallu gweld bod gan y practis system ar waith ar gyfer rheoli gwastraff yn briodol ac yn ddiogel. Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n beryglus (domestig). Gwelsom hefyd fod y gwastraff wedi cael ei wahanu rhwng y bagiau/cynwysyddion lliw dynodedig yn unol â'r dull gwaredu cywir.

Roedd polisi ar waith ar gyfer diogelu oedolion ac amddiffyn plant fel ei gilydd. Roedd staff hefyd wedi derbyn hyfforddiant cyfredol yn y ddau faes. Yn ogystal roedd siartiau llif wedi eu rhoi mewn lle amlwg yn yr ystafelloedd triniaeth er hwylustod eu defnyddio pe bai angen.

Gofal effeithiol

Roedd yn amlwg bod y practis yn ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Roeddem yn gallu gweld bod y practis wedi cwblhau archwiliadau

perthnasol, gan gynnwys rheoli heintiau, iechyd a diogelwch, cofnodion cleifion ac archwiliadau radiograffig.

Gwelwyd tystiolaeth bod cofnodion cleifion o safon uchel, a oedd yn dangos bod gofal wedi cael ei gynllunio a'i ddarparu i sicrhau diogelwch a lles cleifion.

Adolygwyd sampl o 15 o gofnodion cleifion, a oedd yn cynnwys cofnodion a gwblhawyd gan y ddau ddeintydd ac un hylenydd.  Ar y cyfan, roeddem o'r farn bod cofnodion gofal cleifion yn cynnwys digon o wybodaeth ynghylch y trafodaethau a gynhaliwyd am ddewisiadau o ran triniaethau, a sut ceisiwyd caniatâd gan gleifion.  Cafwyd tystiolaeth hefyd o gynllunio triniaeth.

## *Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Canfuom dystiolaeth bod y gwasanaeth yn cael ei reoli'n dda iawn gydag ymrwymiad cryf i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel.**

Sefydlwyd Practis Deintyddol Cyffordd Llandudno dros 15 mlynedd yn ôl. Ers i'r perchnogion presennol gymryd drosodd y practis, mae rhaglen sylweddol o fuddsoddi yn y practis wedi bod.

Gwelsom ffolderi sefydlu staff wedi'u cwblhau ac roedd y rhain wedi'u cynllunio'n dda.  Roedd pob aelod o staff wedi cael mynediad at bolisïau a gweithdrefnau.

Gwelsom fod staff wedi cael mynediad at amrediad eang o hyfforddiant,  a oedd yn bodloni gofynion datblygu proffesiynol, a gwelsom dystiolaeth o gyfarfodydd tîm misol ac arfarniadau staff blynyddol.

Gwnaethom gadarnhau bod gan yr holl staff perthnasol wiriad dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, ac roeddent wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Roedd enwau a chymwysterau'r deintyddion wedi'u harddangos yn glir. Roedd tystysgrif AGIC y deintyddion wedi'i harddangos, fel sy'n ofynnol dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 ac fe welsom gadarnhad o yswiriant indemniad.

Gwelsom gofnodion cynhwysfawr ynglŷn â statws imiwnedd Hepatitis B yr aelodau staff clinigol sy'n gweithio yn y practis.

Gwnaethom adolygu'r polisïau a'r gweithdrefnau sydd ar waith yn y practis, a gwelsom dystiolaeth eu bod wedi'u haddasu i fodloni anghenion y practis.

## 5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i’r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i’r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd Practis Deintyddol Cyffordd Llandudno yn mynd i’r afael â’r canfyddiadau a nodwyd yn y practis, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i’r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i’r problemau a nodir yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi’u hamseru. Yn gyffredinol, dylai’r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynglŷn â’r materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella’r practis yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai’r practis roi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o’r broses arolygu ddeintyddol barhaus.

## 6. Methodoleg

Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis ac sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[2] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.[3] Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau â staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Trafodaethau â staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (pan fo hynny'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC.

Rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol ar ddiwedd pob arolygiad er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Tynnir sylw'r practis deintyddol a'r bwrdd iechyd lleol at unrhyw bryderon brys sy'n codi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

---

[2] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made

[3] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o’r modd y gweithredwyd rheoliadau yn y practis yr ymwelwyd ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Practis Deintyddol Cyffordd Llandudno

## Dyddiad yr Arolygiad: 31 Hydref 2016

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu’r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd Profiad y Claf** | | | | | |
| | Ddim yn berthnasol | | | | |
| **Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol** | | | | | |
| 7 | Ystyried defnyddio mopiau untro neu osod rac wal/bracedi ar gyfer y mopiau ac iddynt god lliw | Rheoliad 14 (b) | Cafodd bracedi eu harchebu ar gyfer pennau'r mopiau ar unwaith ar ôl yr arolygiad, ac maent bellach wedi cael eu gosod. | PJ/HWJ | Cwblhawyd |
| **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | | | |
| | Ddim yn berthnasol | | | | |

**Cynrychiolydd y Practis:**

| | |
|---|---|
| **Enw (llythrennau bras):** | **Paul Jenkins** |
| **Teitl:** | **Prif Ddeintydd/Perchennog y Practis** |
| **Dyddiad:** | **09/12/16** |